

MARWNAD

Y DIWEDDAR

SAMUEL CHIVERS, YSW.,

BRYNHYFRYD, PONTAMAN,

CROSS INN,

Yr hwn a fu farw Mawrth 26ain, 1869,

Yn 82 mlwydd oed.

(Buddugol yn Eisteddfod Cross Inn, Croglith,
1870.)

G A N W. W Y N,

BRYNAMAN.

Mandilo :

ARGRAFFWYD GAN D. W. a G. JONES, POST OFFICE.

MARWNAD.

Yn y Fynwent, a hen ywen
Ddu'n alarwisg uwch y fan :
Yn y gongl dan gysgod cangen
Un o hen ywenau'r Llan .
Tywyll frig y pren yn crynu
I fradychu awel hedd,
Gan droi pobpeth i alaru
"SAMUEL CHIVERS!" dyma'i fedd !

Hen Fynwent gysegredig, *gwyn* dy fyd,
Er yn galaru a gwisgo *ddu* o hyd ;
Mae *gwyn* y byd yn llechu yn dy *ddu*,
Dy feddau'n llawn rhai goreu'r ddaear sy' ;
Dilyna rhai'n eu gilydd i dy gol,
Ond ni ddaw un o honynt byth yn ol !
Rhyw wanc anniwall sy'n dy fynwes brudd,
Rhyw fyn'd tragwyddol i dy geudod sydd :
Dy glai sydd ar wynebau teca'r byd,
Llwch cysegredig yw dy bridd i gyd ;
Wrth rodio'n bendrist gylch dy feddau di
Mae ambell fedd yn tynu dagrau'n lli ;
Y Betws, o rai *anwyl* wyt yn llawn,
Ond dyma'r bedd a'th wnaeth yn *anwyl iawn* !

A'm pwys ar fôn yr ywen uwch ei wely,
Gorphwysaf tra bo'r galon yn galaru :
Sŵn awel hiraeth yn ei brig yn cwyno
Sydd fel y teimlad sy'n fy mron yn chwyddo :
Y Fynwent oer a'i cherig beddau mudion,
Yn gwylio coffadwriaeth llwch ei chalon,
A bysedd cyfaill wedi ysgrifenu—
Uwch ben y bedd i ddal y marw i fynu ;
Y blodau'n ceisio gwenu ar eu gilydd,
I ddangos bywyd uwch y lanerch lonydd ;
Hyawdledd dystaw yn pregethu o hyd,
I fron y byw o enau y bedd mud !

Fan yma, yn y gongl ddirifol hon,
 Lle mae holl brudder angau'n llauw 'mron :
 Lleddf' gwyn y pren aiff â'r ochenaid uchod
 A'r bedd a dÿn y galon idd ei waelod !
 Fan yma ysgrifenas fy ngalareb,—
 A *chysgod* yr hen *Ywen dduo'i* gwyneb—
 Mor *ddû* â galar ! galar dÿ y dyrfa
 Sy'n wylo'u hiraeth uwch y beddrod yma !

Mae'r hen foneddwr anwyl wedi huno !
 Mae'r dwylaw diwyd wedi darfod gweithio :
 Rhoes gam i'w fedd yn *hen*, a llawn o ddyddiau,
 A'i goryn gwyn yn gwyro dan goronau !

Coronodd bysedd y Blynyddau ei ben,
 A phrydferth goron flodau almon wen ;
 A'i law ei hunan blethodd goron iddo,
 Coron y Gweithiwr loewa wrth ei gwisgo :
 A llaw Cymdeithas roddodd goron bonedd,
 Ar ben ei ben coronog llawn anrhydedd ;
 A Duw ei hunan, pencoronwr *Seion*,
 Coronodd ef â dysglaer goron Cristion :
 Coron wrth anfarwoli wnaiff ddysgleirio,
 Coron na wnaiff y beddrod ond ei phuro !

Ar fin ei feddrod tremiaf trwy'r blynyddau,
 Yn ol i'r dydd daeth yma yn ei flodau :
 Ymlodau'i ddyddiau teg,—yn llaw Rhagluniaeth,
 Arweiniwyd ef yn estron i'r gym'dogaeth :
 Yn estron ond mor hawdd y mabwysiadwyd
 Yn estron hwn yn blentyn ar ei haelwyd—
 Yn blentyn, nage'n *dad*, yn ben y teulu,
 Yn dad yn y *Brynhoffryd* daeth i fynu.

Daeth yma gyda chalcn yn ei fynwes,
 Y galon *ddynol*, calon äang gynes ;
 Daeth yma a diwydrwydd lond ei ddwylaw
 A gwaith, a bywyd, gyda i waed yn frydiaw :
 Uwch ben y bedd hwn gallwn ysgrifenu—
 "Mae Bywyd y gym'dogaeth wedi gladdu!"

Do ! cwmpodd, dyma'r bedd a wnaeth ei *lyncu*,
 Ond am ei enw,—*hèr* i'r pridd ei gladdu :
 Y cof a'i deil,—ni raid Cofadail iddo,
 Cofadail frau !—daw'r oriau i'w malurio :
 Cofadail ddrudfawr cyn i'r "*cijn*," a'r "morthwyl,"
 O'r braidd, ar ei chwr uchaf wneyd ei gorchwyl—
 Na fydd llaw adfail yn ymaffyd ynddi—
 I'w thynu'n garnedd i orseddu arni !
 Ond 'enw da,' ynghalon gwlad,—ynghadw,
 Ha ! dyma goffadwriaeth na chaiff farw.

O fron y wlad
 Nid aiff i ffwrdd ;
 Mae calon *Tad*
 A *Mab* yn cwrdd :
 A'r enw'n myn'd
 O fron i fron :
 Hen enw ffryn'd
 Fel tafliad tòn :
 O gryd i gryd
 Mor anwyl yw :
 Yn siglo o hyd
 Yn adgof byw !

Samuel Chivers, dyma enw,
 Enw ddalia byth yn wyn :
 Dyma enw na chaiff farw
 Tra bo bywyd yn "*Cross Inn*!"
 Pob ysgogiad yn y *Weithfa*,
 Rhyw *barhad* o "*Chivers*" yw :
 Tra bydd olwyn yn troi yma
 Ceidw ei bywyd ef yn fyw.

Swn ei enw ymhob ergyd,
 Yn adseinio trwy y lle :
 Cof am dano sy'n diengyd,
 Gyda'r gwreichion fry i'r ne' :
 Nid yw'r holl gymylau afiach
 Myglyd wyra ar eu hynt :
 Ddim ond byw lymanau masnach—
 Blanodd *Chivers* yn y gwynt !

Er y dydd ei rhoed i lechu
 Yn hen Fynwent oer y *Llan* ;
 Mae'r tywyllwch wedi dyblu
 Ei fantelli uwch y fan :
 Dyrch y mwg yn dew ddyblygion
 Gan ymdoni yn y nef,
 Fel rhyw hen faneri duon
 Prudd i gofio am dano ef !

Dyma golofn gweithiwr caled,
 Olion dwylaw diwyd dyn :
 Yr olwynion byth yn myned
 Wedi eu cychwyn ganddo ei hun :
 Dyma gadw yn llyth'renol
 Ei arwyddair yn y byd :
 "Gwaith,"—os Ef yn fud a marwol,
 Gweithio mae y *Gwaith* o hyd.

Colli meistr, dyma golled,
 Meistr wyddai beth oedd gweithio :
 Meistr allai weithio'n galed,
 Meistr allai gydymdeimlo :
 Faint o ddwyllaw duon celyd,
 Sydd yn sychu deigrin *gloew* :
 Deigrin galar, deigrin gofyd,
 Am fod meistr wedi marw.

Un fel-cyfaill mewn sirioldeb,
 Nid fel meistr at ei weithiwr :
 Un edrychai yn ei wyneb,
 Fel y'ngwyneb cydfoneddwr :
 Un a'r gweithiwr yn ei galon,
 Un a'i les yn agos ati,
 Gwelir hyn mewn dagrau gloewon
 Heddyw 'n cael ei frwd gyhoeddi.

Y wawr adeiniog oleu ar ei hynt,
 Dros *ardd Brynhufryd*, 'heda megys cynt :
 O'r dwyrain pell daw heibio'r fan bob borau,
 A blaen ei haden wen ddihuna'r blodau ;

Agorant gil eu llygaid mewn sirioldeb,
 Cyn sychu gwllith y nos oddiar eu gwyneb :
 Awel y dydd, a dyn ei llaw wrth basio,
 Dros ben y gwllithyn i'w sirioli drwyddo ;
 Rhydd dro drwy'r llwyni prydfferth, cerdda rhyngddynt,
 A'r dail i'w chyfarch sydd yn dawasio drwyddynt ;
 Mae'r cyfan wedi deffro fel arferol
 Ond !—fel yn erfyn rhywun idd eu canol.

Ond nid ymlwybra troed trwy'r glesni gwllithog,
 Ac ni chyffyrdda llaw un pen blodeuog :
 Mae'r *ardd* a'r gwllith yn fud yn *aros* arni,
 A'r hen ymwelydd boreu wedi gollu !

Daw gwyneb haul i'r *ardd*
 O flaen y garddwr :
 Ysbeilia'r blodyn hardd
 O'i ddefnyn gwlybwr :
 Edrycha hwn y'myw
 Tan lygad huan ;
 A'i wridog foch yn wyw
 Heb gysgod druan :
 Dilyna'r "lili wen"
 Yr haul trwy'r dydd ;
 Try ei phlygedig ben
 O gylch yn brudd :

Ond nid oes neb a ddaw,
 A'r blodeu'n trengu
 A phiser yn ei law
 I'w disychedu :
 Yr haul dros fryniau'r fro
 I'r *nos* fachludai,
 A *Chivers* heb roi tro
 I wel'd ei flodau !

Bu fel gwarcheidwol angel yn ei wŷn,
 Yn syllu uwch ben ei "lili wen" cyn hyn
 Yn ei chysgodi, rhag yr huan tanbaid,
 Ac yn edmygu ei phurdeb a'i holl enaid

Hen "Fardd y blodau," bu yn ysgrifenu,
 Hanes ei fywyd a'r prydferthion hyny :
 Mae 'i farwnad hefyd wedi ei phlanu yno,
 Llinellau blodau ar ei ol sy'n wyllo !
 Daw awel cydymdeimlad heibio'n dyner,
 A thaena dros y lle ryw chwa o bruddder !

Ond druan,—mae'r Blodeuwr wedi machlud,
 I *bant* ei fedd, yn ymyl ei Fryn hyfryd :
 I'w fedd, y'nghanol llygaid gwlyb ei flodau,
 I'w fedd, y'nghanol blodau ei rinweddau :
 Mae blodau 'i fedd o'i ol yn edrych yno,
 Blodeuant uwch ei ben er cof am dano !

Boneddwr,—na raid ameu'r teitl iddo,
 Y wlad a'i henwodd yn foneddwr *trwyddo* :
 Boneddwr uchel gododd o'r cyffredin,
 Boneddwr traed un o *wyr mawr* y werin :
 Mae boneddigion byd yn *marchog* heibio,
 Heb wel'd y tlawd sydd ar ei draed yn rhodio :
 Ond dyma engraifft lawn o wr bonedig,
 A gerddodd trwy y byd ar draed yn unig.—

Nes daeth hen "gerbyd dŷ,"—
 Y bedd i'w gipio :
 I'w isel dawl dŷ,
 I orphwys yno ;
 A cherbyd gwyn ei *Dad*,
 I fyn'd â'i yspryd—
 I fyth fwynhau mwynhad
 Gorphwysfa Gwynfyd.

Mae bron Cymdeithas heddyw'n ocheneidio,
 Mae bron y wlad o gylch yn wyllo am dano :
 Y galon ddynol sydd yn prudd alaru,
 Mae calon ddynol yma wedi ei chladdu :
 Pob dyn a'i hadwaen sydd yn nyfnder hiraeth
 Am roddi dyn mor hoff yn nhir marwolaeth.

Cyfarfyddai yn ei berson,
 Gronfa o rinweddau dyn ;
 Un a holl guriadau'i galon,
 Yn llawn teimlad da bob un ;
 Ni waeth ganddo'r gwr boneddig,
 Mwy na'r diwyd weithiwr tlawd ;
 Ysbryd llydan bendigedig,
 I holl deulu dyn yn frawd.

Cwmwynaswr gwirioneddol,
 A neillduwyd gan y nef :
 I roi cardod i'r haeddianol,
 Llaw a chalon gafodd ef ;
 Ymysg tlodion ei gymdogaeth
Churilici am y gruddiau llwyd,
 Nid oedd neb o'i adnabyddiaeth
 Gafodd ddyoddef eisiau bwyd.

Un yn ffafr y nef a'r ddaear,
 Un fendithiwyd gan y ddwy ;
 Fel rhyw angel cymwynasgar
 Rhoddodd *lawer*, cafodd *fwy* :
 Aeth trwy'r byd,—y byd anghenog,
 Gan gyfranu yn ei rawd,
 Aeth i'r bedd yn "ddyn cyfoethog"
 Gyda bendith y "dyn tlawd."

Y Cristion addfwyn, un yn caru *Duw*,
 Un wnaith ei ran i gadw'i waith yn fyw ;
 Y Cristion a'r Boneddwr yn yr *un*,
 Yn gweithio gyda chrefydd yn gytun ;
 Yn gweithio gyda'u gilydd mewn anwylddeb,
 Yn gweithio'u hunain fyny i anfarwoldeb ;
 Fel dyn a Christion ni cha'i enw farw,
 Y nef a'r ddaear unant byth i'w gadw ;
 Duwioldeb, dyma goron anllygredig—
 Ar ben boneddwr,—urdd anniflanedig :
 Y nefoedd wedi gweithio ei helpen drwyddo,
 Y byd o'i gylch fel nefoedd yn blaguro ;

O ! dyna golofn gref, yn *Seion* wan,
 Ysgwydd ei gyfoeth ddalia'r gwaith i'r lan ;
 'Roedd calon Cristion yn ei fron yn curo,
 A ffrwd haelioni o honi byth yn llifo ;
 Y "Capel" bychan tlws a wnaeth gyfodi,
 Sydd ar ei ol yn golofn o'i haelioni !

A dyma ddarlun prydfferth, gwerth i angel
 Ei baentio a'i hongian yn ei drigfan uchel ;
 Ei hongian byth ar bared o oleuni,
 I'w ddangos, tra bo'r nefoedd yn bodoli !

"Boneddwr uchel yn mysg dynol ryw,
 Yn codi '*capel*' i addoli Duw ;
 A'r un ar lawr yn isel dan ei bwn,
 Yn codi ei lef, i'r nef, wrth allor hwn ;
 Y llaw gyfoethog roes y *gardod* aur,
 Yn curo am *gardod Duw*, mewn gweddi daer !"

Yspeiliodd angau'r hael
 O Eglwys Dduw ;
 Y bedd oedd raid ei gael
 Ac mwy nid yw.

Os gwyneb ffawd a wnaeth ei yrfa'n heulog,
 Os daeth o fod yn dlawd yn ddyn cyfoethog ;
 Os bendith *Duw* ddilynai 'i weithio caled,
 Nid teg a gwyn i gyd, oedd llwybr ei dynged.

Na, gwelodd ei ran o ofidiau 'r hen fyd,
 Daeth gwynt chwerwderau i'w gwrdd lawer pryd ;
 Daeth llawer o'r dŷ, i'w gwrdd ar ei daith,
 A llawer o gur, i'w gwrdd lawer gwaith.

Bu chwerwder ar aelwyd Brynhytryd aml dro,
 Cyn y tro chwerw o gludo'r pen teulu i'r gro ;
 Nid aeth "pedwar ugain" o flwyddi i fwrdd,
 Heb ddyfod a "chanodd," o groesau i'w cwrdd !

Bu ar gefnfor helbul, mewn storm lawer pryd,
 Ar dònau cystuddiau, y nofiodd trwy'r byd ;
 Daeth tair tòn marwolaeth yn erbyn ei fron,
 A chipiwyd "anwlyd ei fynwes"—bob tòn !

Ystormydd y byd wnaeth ei guro at Dduw,
 Yn *nes*, nes, o hyd po hwyaf bu byw ;
 Wrth grymu i'r bedd,—ai yn uwch i'r nef wer,
 A'i fuchedd yn gwynu o hyd gyda'i ben.

Bu farw yn *Nuw*,—draw ar ben ei daith hir,
 Gollyngodd y byd, yn gafaelu 'n y gwir ;
 Ar draeth oes yn hwy na'r addewid bu ef,
 Yn erfyn y llanw i'w gipio i'r nef.

Tòn olaf penllanw 'i flynyddoedd a ddaeth,
 A'i gario i'r "Hafan ddymunol," a wnaeth ;
 Wrth farw yn ffafr Duw, a dyn yr oedd ef,
 Aeth ymaith a "gwynt teg" o'r ddaear i'r nef.

Yn ymdaith ei angladd mewn hiraeth dihedd,
 Gadawodd y byd yn ei *ddilyn* i'r bedd ;
 Wrth adael y ddaear, ar alwad ei Dduw,
 Gadawodd ei enw o'i ol, byth i fyw !

Yn er gellioi llyd, mewn ston lawr pur,
 Ar donau eystadid, y nofod trwy'r dy;
 Iachn tan tŷn mawrolch yn erbyn ei hon,
 A chiqiwyd "anny" yd ei fymes"—dod tŷn!

Ystoriwyd y bod wneid ei gŵr at Dŷn;
 Yn we, nes, o hyd po fwyd yn fwy;
 Wŷn gwyn i'r bodd—ei yn iuch f'ant we;
 A'i fuched yn gwyn o fyd g'ydai don.

En law yn Wŷn—dŷn er dan ei dŷn hŷn
 Gollwyd y byd, yn gŷn i'r y gŷn;
 A'r gŷn ees yn fwy na'r dŷn hŷn ei
 Yn erbyn y fŷn i'r dŷn hŷn ei

Yn cael ei baratoi i'r Wasg,

"CANEUN W. WYN."

PRIS SWLLT.

Pigion o BRYDDESTAU a CHANEUN Moesol
 a Digrif.

Derbynir eirchion gan yr Awdwr.